

Atodiad 6:

Cynllun Codi Tâl Trwyddedu Rhywogaethau

Cynnwys

Negeseuon allweddol.....	2
Ein cynigion codi tâl	2
Hepgoriadau tâl arfaethedig	3
Taliadau am geisiadau trwydded rhywogaeth:.....	4
Cwestiynau'r ymgynghoriad – gweler Atodiad 9.....	13

Negeseuon allweddol

Rydym yn cynnig cyflwyno taliadau ar gyfer rhai o'r trwyddedau rhywogaeth a roddwn.

Pan fyddwn yn cyfeirio at drwyddedau rhywogaeth, rydym yn golygu'r rhai a roddwn i ganiatáu'r canlynol:

- dal, pigo, cymryd, lladd, neu aflonyddu ar Rywogaethau a Warchodir gan Ewrop o dan Reoliad 55 Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017
- dal, pigo, cymryd, lladd, neu aflonyddu ar rywogaethau o dan Adran 16 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981
- rhyddhau rhywogaethau a restrir yn Atodlen 9 i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981
- marcio, cymryd, neu ladd moch daear ac ymyrryd â brochfeydd o dan Adran 10 Deddf Gwarchod Moch Daear 1992
- dileu, rheoli, defnydd masnachol neu gadw rhywogaethau ymledol o dan Erthygl 36 Gorchymyn Rhywogaethau Estron Goresgynnol (Gorfodi a Thrwyddedu) 2019.

Ein cynigion codi tâl

Rydym yn rheoli trwyddedu gweithgareddau a fyddai fel arall yn anghyfreithlon i'w cyflawni oherwydd eu heffaith debygol ar rywogaethau a warchodir gan Ewrop neu'r DU. Mae'r rhan fwyaf o'r trwyddedau ar gyfer Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop yn ymwneud â datblygiadau, ond rydym hefyd yn derbyn ceisiadau 'domestig' yn ymwneud â'r Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop. Mae'r rhain yn gyffredinol ar gyfer symud ystlumod o anheddau am resymau iechyd, yn ogystal â gwaith bach, effaith isel ar eiddo domestig. Rydym hefyd yn derbyn ceisiadau am weithgareddau sy'n ymwneud â phrosiectau gwyddonol, i helpu cadwraeth, ar gyfer gweithrediadau coedwigaeth, ac ar gyfer amaethyddiaeth.

Mae trwyddedau Rhywogaethau a Warchodir gan y DU fel arfer yn cael eu rhoi ar gyfer gwaith cadwraeth sy'n cynnwys gweithgareddau addysgol, monitro ac arolygu. Mae nifer llai (trwyddedau moch daear yn bennaf) yn ymwneud â datblygu eiddo. Mae rhai ceisiadau am resymau iechyd a diogelwch mewn eiddo masnachol, ac oherwydd effeithiau amaethyddol rhai rhywogaethau ar gnydau a da byw. Mae nifer fach yn ymwneud â rheolaeth fiolegol neu ailgyflwyno rhywogaethau.

Er bod penderfynu ar y ceisiadau hyn yn cael ei ariannu'n gyhoeddus ar hyn o bryd gallwn gyflwyno taliadau trwyddedau rhywogaethau drwy Reoliad 57(5) o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017:

57(5) Caiff y corff trwyddedu perthnasol godi tâl am drwydded o unrhyw swm rhesymol (os o gwbl) y bydd yn penderfynu arno.

Hepgoriadau tâl arfaethedig

Nid ydym am i'n taliadau atal gweithgareddau sydd er budd y cyhoedd, neu er budd y rhywogaeth a warchodir. Nid ydym ychwaith am i'n taliadau effeithio'n anghymesur ar y rhai ar incwm isel. Rydym wedi datblygu ein hepgoriadau arfaethedig i gefnogi'r nodau hyn.

Mae ein cynllun taliadau arfaethedig ar gyfer trwyddedu rhywogaethau yn cynnwys pedwar categori o 'hepgor taliadau.' Mae'r rhain yn nodi'r amgylchiadau lle credwn y dylai cost trwyddedu barhau i gael ei hariannu'n gyhoeddus. Bydd hyn yn ein helpu i reoli'r risgiau o ganlyniadau anfwriadol (cynnydd mewn taliadau sy'n arwain at effeithiau negyddol ar amgylchedd Cymru), ac i'n galluogi i gyflawni ein hamcanion polisi.

Mae meysydd eraill, lle teimlwn nad codi tâl yw'r dull cywir neu nad yw er budd y cyhoedd, yn cynnwys y canlynol:

- trwyddedau at ddibenion rheoli clefydau
- trwyddedau ar gyfer rheoli rhywogaethau estron goresgynnol
- trwyddedau i ddeiliaid tai reoli rhywogaethau a warchodir (fel ystlumod) yn eu cartrefi neu i alluogi gwelliannau ar raddfa fach i eiddo domestig lle mae rhywogaethau a warchodir yn bresennol.

Bydd ceisiadau sy'n dod o dan un neu fwy o'r hepgoriadau hyn yn parhau i gael eu prosesu'n rhad ac am ddim.

Hepgoriad A – Cadwraeth, ymchwil wyddonol ac addysg

Ni fydd unrhyw dâl yn berthnasol i gais am drwydded rhywogaeth lle, ym marn CNC, prif amcan y gweithgaredd yw'r canlynol:

1. cadwraeth rhywogaeth a warchodir neu ei chynefin
2. hybu dealltwriaeth wyddonol o rywogaeth a warchodir neu ei chynefin
3. addysg yn ymwneud â rhywogaeth a warchodir neu ei chynefin
4. cynnal neu wella bioamrywiaeth neu wytnwch ecosystemau
5. cynnal a chadw neu warchod adeiladau neu henebion hanesyddol gwarchoddedig.

Ni fydd unrhyw dâl yn berthnasol i gais am drwydded rhywogaeth sydd ei hangen i wneud gwaith arolwg dielw ar gyfer y gweithgareddau uchod neu i alluogi asiantaeth gorfodi'r gyfraith i ymchwilio i drosedd a amheuir.

Hepgoriad B – Diogelwch y cyhoedd, iechyd y cyhoedd, ac atal difrod difrifol i eiddo

Byddwn yn ystyried hepgor taliadau ar gyfer ceisiadau am drwydded rhywogaeth lle ym marn CNC, mae'r gweithgaredd trwyddedadwy yn angenrheidiol ar gyfer y canlynol:

1. cynnal diogelwch y cyhoedd
2. diogelu iechyd y cyhoedd neu atal lledaeniad clefydau
3. atal difrod difrifol i eiddo, gan gynnwys crydau, da byw, a physgodfeydd.

Hepgoriad C – Trwyddedau sy'n ymwneud â rheoli Rhywogaethau Estron Goresgynnol

Ni fydd unrhyw dâl yn berthnasol i unrhyw gais am drwydded o dan Ran 8 [Gorchymyn Rhywogaethau Estron Goresgynnol \(Gorfodi a Thrwyddedu\) 2019](#)

Hepgoriad D – Datblygiadau deiliaid tai a datblygiadau i ddarparu cyfleusterau a mynediad i bobl anabl

Ni chodir tâl am geisiadau am drwydded rhywogaeth sy'n angenrheidiol i ganiatáu gweithrediad cyfreithlon datblygiad deiliad tŷ fel y'i diffinnir o dan [Erthygl 2 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref \(Gweithdrefn Rheoli Datblygu\) \(Cymru\) 2012](#) fel:

Ystyr 'cais deiliad tŷ' yw cais am y canlynol:

(a) caniatâd cynllunio ar gyfer ehangu, gwella neu newid arall i dŷ annedd, neu ddatblygiad o fewn cwrtil tŷ annedd o'r fath, neu (b) newid defnydd i ehangu cwrtil tŷ annedd, at unrhyw ddiben sy'n atodol i fwynhau'r tŷ annedd ond nid yw'n cynnwys:

- (i) unrhyw gais arall am newid defnydd
- (ii) cais i godi tŷ annedd
- (iii) cais i newid nifer yr anheddau mewn adeilad.

Taliadau am geisiadau trwydded rhywogaeth:

Rydym yn cynnig codi'r taliadau canlynol, yn seiliedig ar adennill ein costau i brosesu ceisiadau am drwydded rhywogaeth:

Trwyddedau Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop – Datblygiad		
Cais am drwydded i ladd, anafu, dal (cymryd), tarfu'n fwriadol, difrodi neu ddinistrio safle bridio neu fan gorffwys yn fwriadol, neu gludo Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop o dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017	Ceisiadau i alluogi Datblygiadau Deiliaid Tai, Datblygiad a Ganiateir neu waith cynnal a chadw eiddo nad oes angen caniatâd cynllunio ar ei gyfer	Dim tâl
	Ceisiadau i alluogi Datblygiadau Lleol	Tâl Sefydlog o £965
	Ceisiadau i alluogi Datblygiadau Sylweddol a Phrosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol	Tâl Hyblyg o £125 yr awr
Ffurflen gais i ddiwygio ar gyfer Trwydded Datblygu Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop	Tâl Sefydlog o £133 neu Dâl Hyblyg o £125 yr awr (wedi'i dalgrynnu i'r 15 munud agosaf) os yw'n gymhleth (lle codir tâl am drwydded)	
Ffurflen Newid Ecolegydd i gefnogi diwygiad i Drwydded Datblygu Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop bresennol	Tâl Sefydlog o £133 (lle mae trwydded yn destun tâl)	
Ffurflen Newid Trwyddedai i gefnogi diwygiad i Drwydded Datblygu Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop bresennol	Tâl Sefydlog o £133 (lle mae trwydded yn destun tâl)	

Mae pwerau penodol i godi swm rhesymol am y trwyddedau hyn ym [Mharagraff 57\(5\) Rheoliadau 2017](#).

Trwyddedau Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop – Coedwigaeth		
Cais am drwydded i ladd, anafu, dal (cymryd), tarfu'n fwriadol, difrodi neu ddinistrio safle bridio neu fan gorffwys yn fwriadol, neu gludo Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop mewn perthynas â rheoli coedwigaeth neu goetiroedd o dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017	Ceisiadau i alluogi gweithrediadau yn bennaf ar gyfer cadwraeth, neu sy'n angenrheidiol ar gyfer iechyd a diogelwch, atal lledaeniad clefydau, neu unrhyw ddiben arall a gwmpesir gan hepgoriad.	Dim tâl
	Ceisiadau i alluogi gweithrediad coedwigaeth fasnachol.	Tâl hyblyg o £125 yr awr (wedi'i dalgrynnu i'r 15 munud agosaf)
<i>Ar gyfer diwygiadau i Goedwigaeth mae'r un ffurflenni a rhestr gostau yn berthnasol ag ar gyfer trwyddedau Datblygu</i>	<i>Gweler uchod</i>	

Mae pwerau penodol i godi swm rhesymol am y trwyddedau hyn ym [Mharagraff 57\(5\) Rheoliadau 2017](#).

Trwyddedau ar gyfer dibenion arolygon, gwyddoniaeth, addysg, ffotograffiaeth a chadwraeth

Cais am drwydded i aflonyddu ar ystumod neu eu cymryd, difrodi, dinistrio neu rwystro mynediad i unrhyw le a ddefnyddir ganddynt ar gyfer bridio, cysgodi neu ddiogelu – Arolwg, cadwraeth a phrosiect ystumod – Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 a Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981	Tâl sefydlog o £132 lle bo angen i weithredu ar sail er elw. Fel arall, Dim Tâl
Cais am drwydded i ladd, cymryd, aflonyddu neu feddu ar unrhyw anifail gwyllt (neu ddeilliad) o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 a Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 – Atodlen 5 a 6 Rhywogaethau ar gyfer arolwg, cadwraeth, prosiect, a meddiant dros dro.	Tâl sefydlog o £132 lle bo angen i weithredu ar sail er elw. Fel arall, Dim Tâl
Cais am ddiwygio arolwg neu drwydded rhywogaethau cadwraeth	Tâl sefydlog o £132 lle bo angen i weithredu ar sail er elw. Fel arall, Dim Tâl
Trwydded Cynnal Arolwg Rhywogaeth: Adrodd ac Adnewyddu	Tâl sefydlog o £132 lle bo angen i weithredu ar sail er elw. Fel arall, Dim Tâl
Cais am drwydded i aflonyddu, cymryd, meddiannu neu ladd adar gwyllt at ddibenion gwyddonol, addysg a chadwraeth ac at ddibenion modrwyo neu farcio neu archwilio unrhyw fodrwy neu farc ac at ddibenion ffotograffig	Tâl sefydlog o £132 lle bo angen i weithredu ar sail er elw. Fel arall, Dim Tâl
Cais am drwydded i symud ceirw o un ardal i'r llall neu ar gyfer cymryd ceirw byw at ddibenion gwyddonol neu addysgol o dan adran 8(2) Deddf Ceirw 1991	Dim Tâl
Cais am drwydded i ryddhau rhywogaeth a restrir ar atodlen 9 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 at ddibenion gwyddoniaeth neu gadwraeth	Dim Tâl

Bydd y rhan fwyaf o drwyddedau sy'n dod o dan y categori hwn yn dod o dan hepgoriad tâl.

Mae pwerau penodol i godi swm rhesymol am y trwyddedau hyn (ac eithrio'r Ddeddf Ceirw, lle na chynigir codi tâl). <https://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2017/1012/part/5/crossheading/grant-of-licences>

Trwyddedau sy'n ymwneud â lladd neu gymryd adar gwyllt o dan Adran 16 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981

Cais am drwydded i ladd neu gymryd adar gwyllt at ddiben atal difrod difrifol i dda byw, bwydydd ar gyfer da byw, cnydau, llysiâu, neu ffrwythau neu i atal lledaeniad clefydau i dda byw, bwydydd ar gyfer da byw, cnydau, llysiâu, neu ffrwythau. Adran 16 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981	Dim Tâl
Cais am drwydded i ladd neu gymryd adar at ddiben diogelu iechyd y cyhoedd neu ddiogelwch y cyhoedd o dan adran 16 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981	Dim Tâl
Cais am drwydded i ladd neu gymryd adar at ddiben diogelu'r awyr o dan adran 16 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981	Dim Tâl
Cais am drwydded i ladd neu gymryd adar at ddiben gwarchod adar gwyllt o dan adran 16 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981	Dim Tâl
Cais am drwydded i ladd neu gymryd adar at ddiben atal clefydau rhag lledaenu o dan adran 16 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981	Dim Tâl
Cais am drwydded i ladd neu gymryd mulfrain, crehyrod, hwyaid danheddog neu hwyaid, i atal niwed difrifol i bysgodfeydd o dan Adran 16 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981	Dim Tâl

Er nad oes unrhyw gynigion i'w defnyddio ar gyfer y trwyddedau hyn, mae pwerau i godi swm rhesymol o dan [Adran 16\(5\) Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981](#).

Trwyddedau ar gyfer casglu, meddiannu, gwerthu neu gyfnewid rhywogaethau a warchodir neu eu deilliadau

Cais am drwydded ar gyfer meddiant o Rywogaethau Atodiad IV Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017	Tâl Sefydlog o £133 (Dim Tâl os yw'r gweithgaredd arfaethedig yn cynnwys Hepgoriad)
Cais am drwydded i werthu, cyfnewid neu gynnig gwerthu neu gyfnewid unrhyw anifail gwyllt (neu ddeilliad) a warchodir o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 neu Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017	Tâl Sefydlog o £133 (Dim Tâl os yw'r gweithgaredd arfaethedig yn cynnwys Hepgoriad)
Cais am drwydded i werthu, cyfnewid neu gynnig gwerthu neu gyfnewid unrhyw blanhigyn gwyllt (neu ddeilliad) a warchodir o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 neu Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017	Tâl Sefydlog o £133 (Dim Tâl os yw'r gweithgaredd arfaethedig yn cynnwys Hepgoriad)
Cais am drwydded i bigu, casglu, torri, dadwreiddio, neu ddinistrio planhigyn gwyllt a warchodir o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd) neu Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017	Tâl Sefydlog o £133 (Dim Tâl os yw'r gweithgaredd arfaethedig yn cynnwys Hepgoriad)
Cais am drwydded i feddu ar sbesimenau marw at ddibenion ymchwil ac addysgol ac at ddibenion unrhyw arddangosfa gyhoeddus o dan Adran 16(1)(a) ac (f) ac 16(5) Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981	Dim Tâl

Mae pwerau penodol i godi swm rhesymol am y trwyddedau hyn ym [mharagraff 57\(5\) Rheoliadau 2017](#) ac [adran 16\(5\) Deddf 1981](#).

Trwyddedau a ddyfernir o dan Erthygl 36(2) Gorchymyn Rhywogaethau Estron Goresgynol (Gorfodi a Thrwyddedu) 2019

Rhywogaethau Estron Goresgynol – Cais am drwydded i gadw anifail mewn cyfleuster	Dim Tâl
Rhywogaethau Estron Goresgynol – Cais am drwydded i roi mesurau rheoli ar waith	Dim Tâl
Rhywogaethau Estron Goresgynol – Cais am drwydded i roi mesurau gwaredu ar waith	Dim Tâl

Nid oes pwerau i godi tâl am y trwyddedau hyn o dan [Orchymyn Rhywogaethau Estron Goresgynol \(Gorfodi a Thrwyddedu\) 2019](#).

Trwyddedau ar gyfer rhyddhau Cyfryngau Rheoli Biolegol

Cais am drwydded i ryddhau cyfrwng rheoli biolegol o dan Adran 16(4)(c) Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981	Dim Tâl
--	----------------

Mae pwerau i godi swm rhesymol am y trwyddedau hyn o dan [Adran 16\(5\) Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981](#).

Trwyddedau a roddwyd gan CNC o dan Ddeddf Gwarchod Moch Daear 1992

Cais am drwydded moch daear at ddiben gwyddoniaeth, addysg, a chadwraeth, modrwyo neu farcio o dan Adran 10(1)(a), (b) ac (c) Deddf Gwarchod Moch Daear 1992	Dim Tâl
Cais am drwydded i ymyrryd â brochfeydd moch daear at ddiben cadwraeth neu ymchwiliad archeolegol i heneb gofrestredig o dan Adran 10(1)(e) Deddf Gwarchod Moch Daear 1992	Dim Tâl
Cais am drwydded i ymyrryd â brochfeydd moch daear at ddiben rheoli llwynogod i warchod bywyd gwyllt dan Adran 10(3) Deddf Gwarchod Moch Daear 1992	Dim Tâl
Cais am drwydded i ymyrryd â brochfeydd moch daear at ddiben ymchwilio i droseddau: Adran 10(1) (f) Deddf Gwarchod Moch Daear 1992	Dim Tâl
Cais am drwydded i ymyrryd â brochfeydd moch daear at ddiben datblygu: Adran 10 (1) (d) Deddf Gwarchod Moch Daear 1992	Tâl Sefydlog o £618

Tabl 8 – Trwyddedau a roddwyd gan CNC o dan Ddeddf Gwarchod Moch Daear 1992

Nid oes pwerau codi tâl penodol o dan Ddeddf Gwarchod Moch Daear 1992 a bydd angen i unrhyw dâl ddibynnu ar ein pwerau codi tâl cyffredinol o dan [Erthygl 12A Gorchymyn Swyddogaethau 2013](#).

Trwyddedau sy'n ymwneud â Morloi	
Cais am drwydded i ladd neu gymryd morloi o dan adran 10 Deddf Cadwraeth Morloi 1970 a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017	Dim Tâl

Tabl 9 – Trwyddedau sy'n ymwneud â Morloi

Nid oes pwerau i godi tâl am y trwyddedau hyn o dan Ddeddf Cadwraeth Morloi 1970 ac nid ydym yn bwriadu creu tâl ar hyn o bryd.

Cwestiynau'r ymgynghoriad – gweler Atodiad 9